

5ed Cyfarfod y Grŵp Ecosystemau Morol – Nodiadau'r Cyfarfod

Gwesty'r Marine, Aberystwyth

27 Mawrth 2012, 10.30 - 1530

Yn bresennol: Blaise Bullimore (Cadeirydd / Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin ac Aberoedd), Mick Green (Annibynnol), Tracey Lovering (Tîm Cymorth PBC), Martyn Evans (Cyngor Sir Fynwy), Jan Hiddink (Prifysgol Bangor), Gill Bell (MCS), Paul Brazier (CCGC), Judith Oakley (Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Abertawe / Prifysgol Fetropolitan Abertawe), Gareth Cunningham (RSPB), Beth Henshall (Ymddiriedolaethau Natur), Aethne Cooke (CCGC).

Ymddiheuriadau: Mary Lewis (CCGC), Julia Williams (Llywodraeth Cymru), Diana Reynolds (Llywodraeth Cymru).

Prif Negeseuon:

- Cyhoeddodd BB ei fod am roi'r gorau i gadeirio'r grŵp. Ni phenderfynwyd ar gadeirydd hirdymor, ond mae BB, PB a GB yn mynd i gynrychioli'r Grŵp Ecosystemau Morol yng nghyfarfod nesaf Cadeiryddion y Grwpiau Ecosystemau ym mis Ebrill a fydd yn cael ei gadeirio gan Matthew Quinn, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy, Llywodraeth Cymru. Bydd cadeirio'r Grŵp Ecosystemau Morol yn cael ei drafod unwaith eto ar ôl y cyfarfod hwnnw. Disgwylir hefyd i Lywodraeth Cymru gyhoeddi cynlluniau i ailstrwythuro grwpiau morol sy'n berthnasol i'r rhaglen Cymru Fyw; mae'n debyg y bydd hyn yn darparu gwybodaeth ynglŷn â chadeirio'r Grŵp yn y dyfodol yn ogystal â'i strwythur a'i gylch gwaith.
- Mae AC yn gadael CCGC, a bydd Paul Brazier o CCGC yn ymgymryd â'i rôl hi ar y grŵp fel ysgrifennydd technegol.
- Cytunwyd y gallai'r grŵp gael budd o ddull gweithredu yn seiliedig ar 'raglen waith' er mwyn cadw'r momentwm, rhannu'r baich gwaith a rhannu gwybodaeth am waith y grŵp a'i aelodau unigol ym maes bioamrywiaeth.
- Cymeradwywyd papur yn crynhoi barn yr aelodau ynglŷn â dyfodol y Grŵp Ecosystemau Morol (ynghlwm). Yn ogystal â'r safbwyntiau sydd yn y papur hwn, mae'r pwyntiau isod i'w pwysleisio yng nghyfarfod Cadeiryddion y Grwpiau ym mis Ebrill:

Er mwyn i'r Grŵp Ecosystemau Morol fod yn effeithiol, mae'n hanfodol cael cefnogaeth a chyfranogiad gweithredol gan holl adrannau perthnasol Llywodraeth Cymru.

Mae'n hanfodol bod yr amgylchedd morol yn cael ei gynrychioli yn fframwaith bioamrywiaeth Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru, gan weithio o fewn yr un strwythurau gweithredol (e.e. grŵp llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru) â'r Grwpiau Ecosystemau eraill.

Gallai cynrychiolaeth o Gangen Tystiolaeth ac Asesu Gwyddonol (Is-adran Cynaliadwyedd a Thystiolaeth Amgylcheddol) Llywodraeth Cymru ar y grŵp hwyluso gwell cyfathrebu rhwng y grŵp a Llywodraeth Cymru, gan gynnwys cyfathrebu gwybodaeth berthnasol rhwng adrannau Llywodraeth Cymru.

Mae'n bwysig bod unrhyw ffurf ar gyfer y Grŵp Ecosystemau Morol yn y dyfodol yn galluogi cyfranogiad parhaus gan gyrrff anlywodraethol, academyddion, swyddogion Safleoedd Morol Ewropeaidd ac aelodau eraill y grŵp presennol. Mae'r aelodau'n dal yn awyddus i gyfrannu tuag at Grŵp Ecosystemau Morol effeithiol; fodd bynnag, mae perygl i ni golli hyn oni ellir penderfynu ar ffordd gadarnhaol o symud ymlaen yn fuan.

Mae'n bwysig bod y Grŵp Ecosystemau Morol yn cwblhau'r gwaith y mae wedi'i wneud hyd yn hyn ar bennu targedau ar gyfer blaenoriaethau Adran 42 fel bod modd dosbarthu'r cyngor hwn i'r lefel leol yng Nghymru, lle bo'n briodol, a rhoi gwybodaeth hefyd ynghlŷn â rheoleiddio gweithgareddau yn yr amgylchedd morol.

- Mae TL yn mynd i gyflwyno coladiad o faterion rheoleiddiol a deddfwriaethol a nodwyd gan yr holl Grwpiau Ecosystemau i'r grŵp prosiect Cymru Fyw sy'n ymwneud â diwygio a gwella rheoleiddio.
- Cytunwyd i anfon copi o'r papur cytunedig ar Ddyfodol y Grŵp Ecosystemau Morol a'r prif bwyntiau uchod at Matthew Quinn cyn cyfarfod Cadeiryddion y Grwpiau Ecosystemau.

	Camau Gweithredu	Pwy	Cynnydd
1	Dosbarthu gwybodaeth am strwythur a staff Rhaglen Cymru Fyw er gwybodaeth	TL (ynghlwm)	Wedi'i gwblhau
2	Cylchredeg y fersiwn diweddaraf o'r polisi morol a materion deddfwriaethol i'r aelodau i gael ei ddiweddarau. Yr aelodau i anfon unrhyw sylwadau at Gareth Cunningham cyn 4/5/12 . Defnyddir hwn i ddiweddarau coladiad TL o faterion rheoleiddiol a deddfwriaethol i'w cyflwyno i Grŵp Diwygio a Gwella Rheoleiddio Cymru Fyw (gweler uchod).	PB (ynghlwm) a Phawb	
3	Cylchredeg rhaglen waith ddrafft Grŵp Ecosystemau Glaswelltir a Rhostir yr Iseldir er gwybodaeth.	TL (ynghlwm)	Wedi'i gwblhau
4	Cylchredeg y dull gweithredu arfaethedig ar gyfer pennu targedau morol a gofyn am sylwadau. Anfon sylwadau at Paul Brazier ar y dull gweithredu cyffredinol a chynnwys meysydd gwybodaeth. Aethne i gwblhau cyn gweithredu.	PB	I ddilyn
5	Cylchredeg camau gweithredu rheolaeth ar atal colli bioamrywiaeth i'r aelodau a gofyn am fewnbwn. Anfonir y camau gweithredu allan ar gyfer ymgynghoriad allanol ar ôl coladu. Aethne i gwblhau cyn gweithredu.	PB	I ddilyn